# Astudiaeth achos Abercaseg

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae Abercaseg yn ysgol Gymraeg ar gyfer dysgwyr 3–7 oed wedi'i lleoli ym mhentref Bethesda. Mae gan yr ysgol 130 o ddysgwyr, ac erbyn hyn mae nifer y dysgwyr sy'n gymwys am ginio ysgol am ddim wedi gostwng i 13 y cant, gyda 23 y cant o ddysgwyr ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.**

Mae gan yr ysgol gydlynwyr llythrennedd a rhifedd penodol sy'n gweithio ar y cyd i fonitro darpariaeth y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) Cenedlaethol a chynnig arweiniad i aelodau o staff ynglŷn â'i weithredu.

Mae'r gwaith o fapio medrau llythrennedd a rhifedd o fewn camau gweithredu'r ysgol, dros y tymor hir, canolig a byr, yn digwydd o fewn cyfarfodydd cyd-gynllunio sy'n cynnwys y cydlynwyr a'r holl athrawon. Mae'r cydlynwyr yn rhannu syniadau a strategaethau ar gyfer defnyddio'r FfLlRh yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn awyddus hefyd i gynnwys dysgwyr yn y broses gynllunio ac mae'n ceisio eu barn ynghylch yr agweddau neu'r themâu penodol yr hoffent edrych arnynt. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu eu gwaith cynllunio ar gyfer y tymor.

Wrth drafod heriau mwyaf yr ysgol wrth weithredu'r fframwaith, meddai Sioned Hywel Thomas, Pennaeth yr ysgol:

'Roedd angen sicrhau ein bod yn ymgorffori'r fframwaith ond o fewn egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, heb golli'r elfen o ddatblygu gweithgareddau ymarferol ac ymchwiliol mae'r disgybl wedi arfer â nhw. Enghraifft o hyn ydy'r Siop Esgidiau a grëwyd o fewn yr ardal chwarae rôl, ble mae gweithgareddau'n cynnwys datblygu medrau llythrennedd drwy gyfarch cwsmeriaid. Mae'r gweithgaredd hefyd yn cynnwys mesur hyd traed, adio i weld pris nifer o esgidiau, a darganfod y newid cywir. Bydd unrhyw dasg yn sicrhau fod y broblem yn berthnasol i fywyd bob dydd y disgyblion, gan hefyd ddefnyddio elfennau rhifedd a llythrennedd.'

Ers i'r fframwaith gael ei gyflwyno, mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni wedi cael ei hatgyfnerthu. Mae'r ysgol wedi rhoi hyfforddiant i'r rhieni ynghylch datblygu sgiliau mathemateg a darllen yn ogystal â sgiliau rhifedd a llythrennedd cyffredinol. Ar ben hynny mae clybiau cwricwlaidd wedi'u cynnal gyda'r nos ar gyfer dysgwyr.

Mae asesu ar gyfer dysgu yn ogystal â gwaith o fewn y dosbarth wedi'u haddasu ers i'r FfLlRh gael ei weithredu. Mae dysgwyr yn cydweithio i ddatrys problemau a mesur llwyddiant eu gwaith yn erbyn meini prawf sy'n seiliedig ar y fframwaith. O ganlyniad i hyn, mae'r dysgwyr yn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn ogystal â'u gallu i werthuso gwaith.

Gan drafod camau nesaf yr ysgol, dywedodd Sioned:

'Rydym yn y broses o gydweithio gydag ysgolion eraill yn yr ardal i greu pecynnau gweithgareddau heriol er mwyn ymestyn sgiliau rhifedd a llythrennedd disgyblion, felly dyma un o'n camau nesaf fel ysgol. A'r gobaith ydy ein bod yn cwblhau hyn erbyn tymor yr hydref 2016.'

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG28407